



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Dôlafon  
Ffordd Dôl-y-coed  
Llanwrtyd  
Powys  
LD5 4RA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



**INVESTORS | BUDDSODDWYR  
IN PEOPLE | MEWN POBL**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Mae Ysgol Dôlafon, sef ysgol gynradd gymunedol ddwyieithog, wedi'i lleoli yn Llanwrtyd, tref fechan yng nghanolbarth Cymru. Agorodd fel ysgol newydd i ddisgyblion tair i un ar ddeg oed ym mis Chwefror 1990 ar ôl cau hen Ysgol Gynradd Sirol Llanwrtyd. Mae pum deg chwech o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn rhan o gyfleuster cymunedol sy'n rhannu llyfrgell a neuadd fawr.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal nad yw'n cael ei disgrifio'n ffyniannus na dan anfantais economaidd ac nid yw'r disgyblion yn freintiedig nac yn ddifreintiedig. Mae gan ddeg y cant o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd yr un fath â phan arolygwyd yr ysgol yn flaenorol yn 2004. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef fymryn o dan 20%. Nodwyd fod gan dair ar ddeg o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae gan un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Nid oes unrhyw ddisgybl 'dan ofal' yr awdurdod lleol. Mae pedwar y cant o'r disgyblion o gefndir lleiafrif ethnig. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. Mae pedwar disgybl yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Daw llawer o'r disgyblion o dref Llanwrtyd a thua 25% ohonynt o'r cymunedau gwledig bach cyfagos yn Nhirabad, Abergwesyn, Cefn Gorwydd a Beulah. Mae rhai teuluoedd yn symud i ddalgylch yr ysgol am gyfnod cymharol fyr cyn symud ymlaen i ardal arall. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r ysgol olrhain ac adrodd yn gywir ar gynnydd carfannau disgyblion o'u medrau wrth ddechrau yn yr ysgol hyd ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Gall rhieni ddewis i'w plant gael y rhan fwyaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae pedwar dosbarth. Caiff un ar ddeg o'r disgyblion, sef tua phumed ohonynt, eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn dwy o'r dosbarthiadau hyn.

Mae'r ysgol yn cyflogi pennaeth, pedwar athro rhan-amser a thri chynorthwydd dosbarth rhan-amser. Mae'r pennaeth wedi bod yn y swydd er Medi 2003. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2004.

Mae cylch chwarae meithrin dwyieithog wedi'i leoli yn yr ysgol i ddisgyblion o ddwyflwydd a hanner i bedair oed. Mae'r feithrinfa wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer uchafswm o 12 o blant. Caiff ei harolygu ar wahân i'r ysgol yn ddiweddarach.

Mae'r ysgol wedi ennill sawl gwobr gan gynnwys Baner Werdd Eco-Ysgolion, y wobwr ysgolion iach ac mae'n aros am ganlyniad asesiad i'w chydabod yn ysgol Masnach Deg.

Cyllideb ysgolion unigol Ysgol Dôlafon fesul disgybl ar gyfer 2010-2011 yw £5,827, o'i chymharu ag uchafswm o £11,812 ac isafswm o £2,891 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhowys. Mae gan yr ysgol y pumed gyllideb uchaf fesul disgybl o'r 101 o ysgolion cynradd ym Mhowys.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Gynradd Dôlafon yn darparu ethos gofalggar a meithringar ac mae wrth wraidd y gymuned. Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda yn gyffredinol oherwydd:

- yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion un ar ddeg oed wedi cyflawni'r lefelau disgwylidig. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau cyfathrebu mewn Saesneg yn arbennig, ac yn defnyddio'r medrau hyn yn dda yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm;
- mae'r addysgu yn darparu profiadau perthnasol i'r disgyblion sydd o ddiddordeb iddynt;
- mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac ag oedolion;
- mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrando'n astud mewn gwersi, yn awyddus i ddysgu; ac
- mae'r staff, gan gynnwys arweinwyr a rheolwyr, yn gweithio'n galed i wella dysgu'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- mae'r trefniadau presennol ar gyfer hunanarfarnu yn darparu sail gadarn ar gyfer datblygu yn y dyfodol;
- mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth briodol o anghenion yr ysgol;
- mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n dda â'i gilydd i greu amgylchedd da ar gyfer dysgu; ac
- mae'r corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

## Argymhellion

- A1 datblygu mwy ar fedrau ysgrifennu'r disgyblion mewn Cymraeg trwy'r ysgol gyfan;
- A2 gwella medrau dysgu annibynnol y disgyblion;
- A3 gwella trefniadaeth y dosbarthiadau er mwyn targedu ystod eang yr oedrannau a'r galluoedd mewn dosbarthiadau yn fwy effeithiol;
- A4 datblygu mwy ar strategaethau asesu ar gyfer dysgu;
- A5 canolbwyntio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer datblygu'r ysgol gyfan yn fwy effeithiol ar dargedu gwelliannau i safonau'r disgyblion a datblygu medrau; a
- A6 gwella presenoldeb.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr ysgol yn anfon copi at rieni a gofalwyr.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae llawer o'r plant yn dechrau yn yr ysgol â medrau is na'r rheiny a ddisgwylir ar gyfer plant o'u hoed. Caiff lleiafrif sylweddol ohonynt gymorth ychwanegol ar gyfer iaith a lleferydd ac maent yn gwneud cynnydd da.

Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae gwaith presennol y disgyblion yn dangos cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd, yn enwedig mewn Saesneg. At ei gilydd, mae'r disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn dda yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau iaith Gymraeg mewn siarad, gwrando a darllen, ond dim ond cynnydd digonol mewn ysgrifennu. Nid yw medrau dysgu annibynnol y disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2 yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6 yng nghyfnod allweddol 2, yn ofalus oherwydd yr effaith ystumiol y gall y niferoedd bach ei chael ar berfformiad cyffredinol yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion 11 oed yn well na chyrhaeddiad disgyblion 7 oed yn gyson. Yn 2010, mae canlyniadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 ymhlith y 25% isaf ar gyfer ysgolion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cymharu ag ysgolion mewn amgylchiadau tebyg, ac ar gyfer ysgolion yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol. Mae'r canlyniadau ymhlith y 25% gorau ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf.

Er 2006, mae'r dangosydd pwnc craidd (DPC) ar gyfer cyfnod allweddol 1, sy'n dangos canran y disgyblion saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd, wedi rhoi perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% o ysgolion isaf ar gyfartaledd. Mae gwaith presennol y disgyblion yn dangos gwelliant cyffredinol mewn safonau yng nghyfnod allweddol 1.

Mae perfformiad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae'r canlyniadau ymhlith y 25% o ysgolion gorau ar gyfer y DPC. Mae'r holl ddisgyblion yn cyrraedd y safonau disgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn o ran cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5), er bod y niferoedd dan sylw yn rhy isel i wneud y canlyniadau hyn yn arwyddocaol.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau personol ac yn gwneud cynnydd priodol o gymharu â'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

**Lles: Da**

Mae gan y disgyblion agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig, yn gweithio'n galed ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn iach ac yn fywiog. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn yr ysgol.

Mae medrau personol a chymdeithasol y disgyblion wedi'u datblygu'n dda. Mae eu hymddygiad yn dda ac mae'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac ag oedolion yn yr ysgol, ac wrth gymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau yn y gymuned. Mae'r disgyblion yn rhoi llawer o'r medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y maent yn eu dysgu yn yr ysgol ar waith, gan gynnwys gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, maent yn ymddwyn yn gynaliadwy trwy ailgylchu nwyddau a thrwy fod yn arolygwyr arbed ynni, sy'n gyfrifol am ddiffodd goleuadau a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio ynni pan nad oes eu hangen. Maent hefyd yn ceisio dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad eu rhieni ynghylch pwysigrwydd bod yn ddinasyddion byd-eang da trwy brynu bwyd a nwyddau sy'n dwyn y logo Masnach Deg wrth siopa.

Caiff y disgyblion fwyfwy o ddylanwad ar yr hyn sy'n cael ei addysgu a sut, trwy wneud ceisiadau trwy Eco-gyngor yr ysgol a thrwy roi syniadau ym mlwch awgrymiadau'r Cynllun Datblygu Ysgol. Os yw eu syniadau'n briodol ac yn ymarferol, cânt eu hystyried gan yr athrawon wrth gynllunio thema neu brosiect bob tymor.

Nid yw medrau'r disgyblion wedi'u datblygu cystal mewn gwella eu dysgu eu hunain, ac mewn gosod ac adolygu eu targedau er mwyn adnabod yr hyn y mae angen iddynt ei wella.

Mae'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae gan yr ysgol gyfradd bresenoldeb gyfartalog o 91.75% yn ystod y tri thymor cyn yr arolygiad. Mae'r canrannau presenoldeb hyn yn sylweddol is na'r cyfartaleddau ym Mhowys ac yng Nghymru a tharged yr ysgol, sef 95%. Roedd presenoldeb yng ngwanwyn 2010 dan 90% gan nad oedd disgyblion yn gallu teithio o'r ardaloedd gwledig anghysbell oherwydd yr eira trwm. Mae absenoldeb anawdurdodedig yn isel ac ychydig yn well na'r cyfartaleddau ym Mhowys a Chymru.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn ddigon hyblyg yn gyffredinol i fodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithredu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, CA1 ac CA2 yn briodol, gan gynnwys addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer, atgyfnerthu ac ymestyn eu medrau bob tro trwy ddull o gyflwyno'r cwricwlwm sy'n cynnwys dysgu gweithredol sydd wedi'i seilio ar chwarae.

At ei gilydd, mae'r athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau sy'n darparu profiadau perthnasol i ddisgyblion sydd o ddiddordeb iddynt. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau siarad a gwranddo trwy'r ysgol gyfan. Mae

gwaith pâr a gwaith grŵp yn nodwedd reolaidd ym mhob dosbarth ac yn annog disgyblion yn effeithiol i wrando ar eraill ac ymateb yn briodol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn cydweithio i gynllunio a chwblhau eu hymholiad eu hunain mewn gwyddoniaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a darllen y disgyblion mewn Saesneg a darllen mewn Cymraeg yn gyffredinol dda. Mae gweithgareddau perthnasol sydd wedi'u cynllunio'n dda yn sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn defnyddio eu medrau mewn ysgrifennu gwybodaeth, er enghraifft, i lunio ryseitiau ar gyfer 'trwythau ffrwythau Masnach Deg'. Fodd bynnag, mae ysgrifennu'r disgyblion yn or-ddibynnol ar gyfarwyddyd athrawon a defnyddio templedi ysgrifennu.

Mae'r staff yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol ac am gelf, cerddoriaeth a diwylliant Cymru. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

### **Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan. Roedd arsylwadau o addysgu yn ystod yr arolygiad yn ddigonol o leiaf. Mae tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion a thrafodaethau â nhw yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran a'u gallu.

Lle mae'r addysgu'n arbennig o effeithiol, caiff adnoddau eu defnyddio'n dda i gynorthwyo dysgu'r disgyblion ac mae holi medrus yn ymestyn eu dealltwriaeth. Mewn sesiynau lle mae'r addysgu'n ddigonol, nid yw trefniadaeth a rheolaeth y dosbarth yn canolbwyntio digon ar herio a thargedu grwpiau blwyddyn penodol bob tro, yn enwedig y rhai mwy galluog ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff cymorth, yn modelu iaith yn gywir ac yn defnyddio strategaethau ymddwyn yn effeithiol er mwyn cadw bron pob disgybl ar y dasg dan sylw.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gydwybodol ond, ambell waith, mae'r marcio'n rhy gadarnhaol ac nid yw'n helpu'r disgyblion i wella. Caiff cynnydd disgyblion mewn dysgu ei asesu'n rheolaidd a'i olrhain yn ofalus gan yr athrawon. Nid yw'r wybodaeth hon a strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu defnyddio'n dda bob tro i dargedu gwelliannau i berfformiad disgyblion unigol. Ni chaiff disgyblion eu cynnwys yn ddigonol mewn olrhain, arfarnu ac adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Yn gyffredinol, mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn addysgiadol. Mae rhieni a gofawyr o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.



### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau priodol ar gyfer adnabod a chynorthwyo disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u gwaith. Caiff y cymorth hwn ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da ag asiantaethau allanol arbenigol. At ei gilydd, caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gynnydd eu plant. Caiff cynlluniau addysg unigol disgyblion eu harfarnu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ethos gofalgarg a meithringar ac mae wrth wraidd y gymuned. Mae'n croesawu rhieni ac ymwelwyr. Mae'n gwbl gynhwysol ac yn trin pob disgybl yn gyfartal. Caiff pob un ohonynt gyfle i ddefnyddio'r ystod lawn o ddarpariaeth yr ysgol.

Mae'r tu mewn a'r tu allan i'r adeilad wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Caiff yr ystafelloedd eu defnyddio'n effeithiol ac mae trefniadau priodol ar waith i rannu rhai o'r adnoddau â'r gymuned. Mae'r adnoddau'n helaeth a chânt eu defnyddio'n dda, ar y cyfan, i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r gwaith o gynnal a chadw adeilad yr ysgol, y cyfleusterau cymunedol a'r tir yn dda.

Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn manau eraill yn yr adeilad yn ddeniadol ac wedi'u cyflwyno'n dda. Maent yn atgyfnerthu dysgu'r disgyblion mewn sawl maes cwricwlaidd yn effeithiol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae'r tîm rheoli a'r staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn creu amgylchedd da ar gyfer dysgu.

Mae gan staff addysgu a chymorth rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cyflawni'r rhain yn gyffredinol dda. Mae gan yr holl staff addysgu gyfrifoldebau fel cydlynwyr y cwricwlwm ac maent yn cyfrannu at broses hunanarfarnu'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cynorthwyo'r ysgol yn llwyddiannus i gynllunio ei chyfeiriad strategol trwy chwarae rhan weithredol yn y broses hunanarfarnu, wrth osod blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol ac wrth fonitro effeithiolrwydd gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gweithredu ystod dda o fentrau lleol a chenedlaethol fel y Cyfnod Sylfaen. Bu'n arbennig o effeithiol wrth weithredu'r fenter Ysgolion Iach, lle mae wedi cyflawni lefel 3, a gwobr Baner Werdd Eco-Ysgolion. Mae'n aros am ganlyniad ei chais am statws ysgol Masnach Deg.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu priodol sy'n ffurfio sail adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr. Mae'n ystyried barnau'r holl randdeiliaid yn dda, gan gynnwys llywodraethwyr, staff, rhieni a disgyblion. Mae deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu yn llywio cynllun datblygu'r ysgol. Nid yw'r un o'r ddwy ddogfen yn rhoi digon o bwyslais ar ddefnyddio gwybodaeth am ddeilliannau disgyblion i flaenoriaethu gwelliannau i drefniadaeth a rheolaeth dosbarthiadau. Ni roddir digon o sylw i ddefnyddio arbenigedd athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu yn fwy effeithiol er mwyn codi cyflawniad disgyblion.

At ei gilydd, aethpwyd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol yn briodol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos ag ysgolion cyfagos ac mae'n cydweithio'n dda â nhw. Mae'n rhan o gymuned ddysgu broffesiynol lle mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn cyfarfod â chydweithwyr o'r grŵp o ysgolion yn y dalgylch i drafod cynllunio a materion cysylltiedig, ac i rannu arfer orau.

Mae'r ysgol yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol arall hefyd, sydd â'r nod o rannu syniadau ac arfer orau yn ymwneud â'r strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer cynorthwyo disgyblion mwy galluog a thalentog. Caiff y data o aelodaeth y teulu ysgolion ei ddefnyddio'n effeithiol i gymharu perfformiad yr ysgol yn erbyn perfformiad yr aelodau eraill. Mae cysylltiad â'r Teulu Ysgolion diwygiedig i drafod a rhannu arfer dda wrthi'n cael ei gynllunio.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned ac mae'n cymryd rhan mewn sawl digwyddiad. Mae'n trefnu ymweliadau â'r ardal leol hefyd, sy'n cynnwys busnesau lleol ac i weld gwaith y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r profiadau hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'u gwaith eu hunain ac o gyflogaeth yn yr ardal leol.

Mae strwythurau a phrosesau effeithiol ar waith sy'n cyfrannu'n dda at weithio ar y cyd. Mae'r ysgol yn elwa ar wasanaethau asiantaethau allanol, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, therapi iaith a lleferydd a'r seicolegydd addysg. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor i fentora athrawon dan hyfforddiant sy'n ymgymryd â chyrtsiau hyfforddiant cychwynol i athrawon.

Mae'r ysgol yn gweithredu mentrau sy'n hwyluso pontio'r disgyblion o un cyfnod dysgu i'r nesaf yn effeithiol. Mae Cymdeithas Gyfeillion yr Ysgol yn weithgar iawn ac yn cyfrannu'n dda at weithgareddau a chyllid yr ysgol. Mae rhai oedolion yn helpu â gweithgareddau penodol mewn dosbarthiadau, fel gwrandio ar ddisgyblion yn darllen a'u helpu yn eu gwaith creadigol. Trwy'r clwb garddio, mae rhieni ac oedolion eraill yn gwella cysyniad y disgyblion o les trwy ddyfnhau eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a phwysigrwydd ffordd iach o fyw a diet iach.

## **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu cymwys i addysgu'r cwricwlwm cyfan. Yn gyffredinol, mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n dda â'i gilydd i greu amgylchedd da ar gyfer dysgu. Ambell waith, collir cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, fel arbenigedd athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu, i dargedu grwpiau o ddisgyblion i wella eu cynnydd a gwella cyflawniad.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi'u rheoli'n dda.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid y mae'n ei dderbyn yn dda i sicrhau deilliannau priodol i ddisgyblion. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn craffu ar gyllideb yr ysgol yn rheolaidd a chaiff cyllid ei ddyrannu i fodloni gofynion sydd wedi'u nodi yng nghynllun datblygu'r ysgol, er bod y gofynion hyn yn rhy niferus ac nid ydynt wedi'u rhestru yn ôl eu blaenoriaeth.

Ar y cyfan, mae'r gwerth am arian yn dda o ran y modd y caiff y gyllideb ei defnyddio a'r deilliannau i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn fach ac mae ganddi'r pumed gyllideb fwyaf fesul disgybl o'r 101 o ysgolion cynradd ym Mhowys.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae gan bron pob rhiant farn gadarnhaol am waith yr ysgol. Dywedant ei fod yn amgylchedd diogel a hapus sy'n cael ei reoli a'i drefnu'n effeithlon. Mae eu plant yn mwynhau mynychu'r ysgol ac maent yn ymddwyn yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn helpu eu plant i ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Dywedant fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u bod yn cael gwybodaeth dda am y safonau y maent yn eu cyflawni trwy gyfarfodydd tymhorol ag athrawon ac adroddiadau diwedd blwyddyn.

Canfyddant fod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn awyddus i ddysgu ac i wneud eu gorau. Mae pob rhiant o'r farn bod ystod dda o weithgareddau yn yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn briodol ac yn atgyfnerthu'r dysgu mewn dosbarthiadau. Dywed rhieni fod y plant yn cael digon o gymorth ychwanegol â'u hanghenion dysgu unigol yn ôl yr angen. Teimlai pob un ohonynt fod eu plant yn cael eu trin yn deg ac â pharch.

Dywed bron pob rhiant y gallant fynd i siarad â'r staff yn rhwydd os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch gwaith neu les eu plant. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod sut i gwyno, os oes angen.

Mae llawer o'r rhieni'n credu y caiff eu plant eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf. Dywed rhai ohonynt nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i lunio barn wybodus am yr agwedd hon.

#### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy y dylent siarad os ydynt yn poeni neu wedi cynhyrfu neu os ydynt yn cael eu gwaith yn anodd. Mae bron pob disgybl yn teimlo ei fod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae pob un ohonynt yn cytuno bod yr athrawon ac oedolion eraill yn rhoi cymorth da iddynt ac yn rhoi digon o gyfle iddynt ddatblygu ffordd o fyw iach a bywiog. Mae pob disgybl o'r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall yn well ac i wella eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda. Dywed pob un ohonynt eu bod yn cael cyfleoedd da i gyfrannu at benderfyniadau, er enghraifft, trwy Eco-gyngor yr Ysgol a thrwy gyfrannu at gynllunio agweddau ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o'r farn bod ymddygiad y disgyblion yn dda, yn enwedig yn ystod amseroedd chwarae ac amser cinio. Mae pob disgybl yn teimlo bod y staff yn mynd i'r afael ag unrhyw enghreifftiau o fwlio yn gyflym ac yn briodol.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Jeff Jones	Arolygydd Cofnodol
Bev Jenkins	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Glyn Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Gill Lloyd	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)).

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11